Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pontyberem
# Heol Y Felin
# Pontyberem
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 5EB

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
## a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2015**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Pontyberem, yng Nghwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Daw'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion o'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae 198 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar gofrestr yr ysgol, sy'n gynnydd sylweddol o'r 155 adeg yr arolygiad diwethaf. Mae 13 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol wyth dosbarth amser llawn, gyda dau o'r dosbarthiau hyn yn cynnwys disgyblion o grwpiau oedran cymysg. Mae tua 13% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (21%).

Mae'r ysgol wedi nodi bod tua 36% o'i disgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac o'r rhain ychydig sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 3% o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid oes yr un disgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 61% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pontyberem yn 2014-2015 yw £3,526. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,098. Mae Ysgol Pontyberem yn safle 72ain o'r 103 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- disgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith;
- llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwiliol yn bwrpasol yn eu gwaith thema;
- llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd;
- medrau rhifedd llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol;
- gweithdrefnau effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda iawn;
- disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda; a bod
- bron pob disgybl yn mwynhau yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda mewn gwersi.

Fodd bynnag:

- nid yw perfformiad yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg;
- nid yw cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn ddigon da gan fod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf;
- mae peth anghysondeb yn safon yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen; ac
- nid yw asesiadau athrawon yn ddigon cywir.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod gweledigaeth yr arweinwyr yn sicrhau awyrgylch hapus, diogel a sefydlog;
- bod yr arweinyddiaeth yn llwyddo i gynnal ethos cryf o waith tîm yn yr ysgol lle mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol;
- bod defnydd da iawn o arbenigedd gwahanol aelodau o staff;
- bod yr ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;
- bod yr arweinyddiaeth yn gwneud defnydd priodol o ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn y broses hunanarfarnu; a
- bod yr ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw ffocws y arweinyddiaeth yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a mesur

effaith eu gweithgaredd ar ddeilliannau;
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod yr agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon trylwyr ac nid yw'n ddigon miniog;
- nid yw'r cynllun datblygu yn ddigon manwl; ac
- nid yw rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu.

## Argymhellion

A1 Codi deilliannau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 fel eu bod yn cymharu'n well â pherfformiad ysgolion tebyg

A2 Gwella cyfradd bresenoldeb yr ysgol fel ei bod yn cymharu'n well â chyfraddau ysgolion tebyg

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn gyson dda yn y Cyfnod Sylfaen a bod asesu ar draws yr ysgol yn adlewyrchu safonau'r disgyblion yn well

A4 Gwella cywirdeb adroddiadau hunanarfarnu yr uwch dîm rheoli fel eu bod yn drylwyr ac yn adnabod y gwendidau

A5 Sicrhau bod y camau gweithredu sy'n cael eu hadnabod yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon manwl i hwyluso mesur effaith

A6 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn ysgol. Mae safonau disgyblion yn y gwersi ac yn eu llyfrau ar hyn o bryd yn uwch nag y mae asesiadau diweddaraf yr athrawon yn eu hadlewyrchu. Gall disgyblion alw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu arno. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwiliol yn bwrpasol yn eu gwaith thema. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

Mae medrau llafar bron pob disgybl yn datblygu'n gyson dda ar draws yr ysgol. Maent yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd, yn dangos dealltwriaeth dda ac yn awyddus i gynnig ymatebion pan gânt eu holi. Siaradant yn hyderus am eu gwaith ar draws yr ysgol, a hynny yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd, gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn rhugl yn y Gymraeg yn fuan. Maent yn mynegi eu hunain yn glir a chywir ar y cyfan.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Gall y rhan fwyaf ddarllen ar goedd yn glir ac ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan oslefu'n briodol a dangos dealltwriaeth o'r testun. Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i wella ar eu medrau darllen yn gwneud cynnydd cyson. Mae disgyblion yn magu diddordeb mewn llyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr eiddgar. Gall disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 drafod yn frwd y cymeriadau a'r digwyddiadau yn y storïau y maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwiliol yn dda mewn arbrofion gwyddonol. Gallant ganfod gwybodaeth ar y we yn Saesneg a'i chymhwyso er mwyn ei chyflwyno yn y Gymraeg mewn cyflwyniadau electronig.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cychwynnol priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn ffurfio ystod o frawddegau amrywiol a defnyddio atalnodi yn lled effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn ystod gynyddol o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae gwaith llawer o'r disgyblion yn dangos safonau addas o ran cywirdeb yn y ddwy iaith. Gallant drefnu eu gwaith i baragraffau ac atalnodi yn briodol. Mae llawer yn llwyddo i gynnal diddordeb y darllenydd gyda'r goreuon yn defnyddio iaith gyhyrog a byrlymus.

Mae medrau rhifedd llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft trwy chwarae rôl yn y swyddfa bost. Mae gan fwyafrif afael gadarn ar brosesau adio a thynnu. Erbyn diwedd Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf gymhwyso'r medrau yn briodol wrth ddatrys problemau yn ymwneud â stori ddarllen y dosbarth. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn gyflwyno gwybodaeth ar ffurf diagramau a thablau yn llwyddiannus cyn creu graffiau yn ymwneud â'r thema.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Gall y disgyblion hyn ddefnyddio ystod dda o strategaethau i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer ddealltwriaeth drwyadl o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn effeithiol mewn pynciau eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae tuedd o welliant ym mherfformiad disgyblion o ran cyrraedd y deilliant a ddisgwylir (deilliant 5) mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Serch hynny, yn 2014, roedd perfformiad disgyblion yn y ddau faes hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Tros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn gyson yn y 50% is neu yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a medrau mathemategol ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn gyson.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2014, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos gwelliant nodedig. Roedd hyn yn gosod yr ysgol yn gyffredinol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg, ar wahân i wyddoniaeth, oedd yn y 50% is.

Serch hynny, tros gyfnod o bedair blynedd, mae'r darlun mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg yn anghyson iawn. Mae perfformiad disgyblion yn y Gymraeg, ar wahân i 2013, wedi bod yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf. Ond mewn Saesneg a mathemateg, ar wahân i 2014, mae'r ysgol wedi bod yn y 50% is neu'r 25% isaf. Mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth yn gyson yn y 50% is neu'r 25% isaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn gyson yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf tros gyfnod o bedair blynedd. Mae'r perfformiad yn y Gymraeg yn fwy anghyson ac wedi bod yn y 50% is am y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Lles: Digonol

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn hapus yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gyson gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae ymddygiad o fewn y dosbarth, a thu allan, yn dda iawn ac yn un o gryfderau'r ysgol. Yn y gwersi, mae disgyblion yn frwdfrydig ac yn gweithio'n gytûn. Llwydda llawer i gadw ar dasg am gyfnodau estynedig a chyfrannu'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach ac maent yn ymarfer corff yn rheolaidd yn ystod eu gwersi ac yn y clybiau ar ôl ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau sy'n cyfrannu at les y disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r modd y maent wedi peintio toiledau'r ysgol yn ddiweddar. Maent yn cynllunio rhaglen waith lwyddiannus yn flynyddol, ac yn rhoi cyflwyniad rheolaidd am eu gweithgareddau i'r corff llywodraethol. Mae'r grŵp eco yn cydweithio'n agos â'r cyngor cymuned er mwyn gwella amgylchedd Pontyberem. Mae'r disgyblion yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y gymdeithas leol. Maent yn cyfrannu i'r papur lleol yn fisol ac yn cymryd rhan yn yr eisteddfod a'r sioe leol yn flynyddol. Maent yn elwa o'r cyfleoedd hyn ac, o ganlyniad, yn meithrin hyder a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned arbennig y cwm.

Nid yw cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn ddigon da gan fod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae systemau cynllunio'r ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad da o weithgareddau amrywiol. Cynigir cyfleoedd gwerthfawr i'r dysgwyr o bob oed gyfrannu i'r broses o gynllunio'r thema. Mae'r cynllunio yn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn yn bron pob dosbarth. Mae bron pob athro yn paratoi gwaith gwahaniaethol buddiol ar gyfer disgyblion ar lefelau gwahanol o ran gallu.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd yn effeithiol gyda chyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yn gryfder. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ymarferol yn llwyddiannus i ddatblygu medrau rhif a meddwl ar draws y cwricwlwm, yn arbennig mewn agweddau gwyddonol.

Mae'r dimensiwn Cymreig ac ymwybyddiaeth o berthyn i'r gymuned yn greiddiol i ethos yr ysgol ac yn treiddio drwy'r holl weithgareddau. Mae'r ymweliadau addysgol a'r defnydd a wna'r ysgol o'r gymuned leol ac ymwelwyr megis Aneurin Karadog, Alun Wyn Bevan a Nigel Owens yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r profiadau hyn yn sbarduno'r disgyblion ar draws y meysydd dysgu ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio a chystadlu ar lefel ysgol, leol a chenedlaethol yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu ystod werthfawr o brofiadau i ddisgyblion i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae disgyblion yn elwa'n benodol o brosiect sy'n hybu cydweithio ag ysgol gyfagos ac ysgolion eraill yn Ewrop a chyswllt gyda theulu yn China.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn cydweithio'n effeithiol bron ym mhob dosbarth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi. Defnyddia'r rhan fwyaf o staff gwestiynau treiddgar ac agored er mwyn datblygu a gwella dealltwriaeth y disgyblion o'r tasgau a'u hannog i ymhelaethu ar eu hatebion. Mae bron pob athro yn cynllunio gweithgareddau ysgogol ac, o'r herwydd, mae'r gwersi yn symud ymlaen ar gyflymder da. Mae hyn yn ennyn a chynnal eu diddordeb yn dda.

Rheola athrawon ymddygiad ar draws yr ysgol yn effeithiol sy'n sicrhau awyrgylch lle gall y disgyblion ddysgu yn llwyddiannus ac adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu lefelau priodol o her i ddisgyblion o wahanol alluoedd ac yn eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol. Serch hynny, mae anghysondeb yn safon yr addysgu mewn lleiafrif o wersi yn y Cyfnod Sylfaen ac nid yw'r gwaith a roddir i'r disgyblion yn ddigon priodol i'w hoed na'u gallu. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad rhifedd y disgyblion.

Mae cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol yn cael ei orhain yn gyson er mwyn adnabod disgyblion sydd yn tangyflawni a darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r staff ar y cyfan yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol wrth gynllunio gwaith pellach. Er hyn, nid yw asesiadau diweddaraf yr athrawon yn ddigon cywir ac mae hyn yn effeithio ar ddeilliannau'r ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda bron ymhob dosbarth. Derbynia'r disgyblion adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol ar eu hymdrechion. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd gan ddefnyddio'r dull dwy seren a dymuniad. Fodd bynnag, ni roddir digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymateb i'r sylwadau hyn.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac mae trefniadau effeithiol yn bodoli i sicrhau lles a hapusrwydd disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo byw yn iach a datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Trwy roi cyfrifoldeb i'r disgyblion i lunio ac arwain y gwasanaethau boreol, mae'r ysgol yn annog datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol iawn, yn arbennig trwy'r cyfleoedd i fyfyrio.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael gwybodaeth a chymorth proffesiynol gan gynnwys cefnogaeth lle bo angen. Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth effeithiol gan wasanaeth nam clyw'r awdurdod. Serch hynny, nid yw systemau presenoldeb yr ysgol na'r bartneriaeth â'r awdurdod lleol yn ddigon effeithiol er mwyn sicrhau'r gwelliant sydd ei angen yn y gyfradd bresenoldeb.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau priodol ar gyfer adnabod, cefnogi a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan bob disgybl ar gofrestr anghenion arbennig yr ysgol gynllun addysg unigol priodol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â rhieni a'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chefnogol iawn lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Caiff pob disgybl fynediad llawn at y cwricwlwm ac mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Adlewyrchir hyn yn ymddygiad y disgyblion a'r ffordd y maent yn uniaethu â'i gilydd a'u hathrawon. Llwydda'r ysgol i ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith, eu cymuned a'u llwyddiannau.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a'r adnoddau. Mae'r adeilad a'r safle yn helaeth ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau mae'r ysgol yn eu darparu. Mae arddangosfeydd symbylus yn y dosbarthiadau ac ar hyd y coridorau. Mae'r rhain yn arddangos gwaith y disgyblion ac yn darparu amgylchedd ddysgu ysgogol.

Mae’r adeilad o ansawdd da ac mae’r adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n daclus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r pennaeth wedi llunio gweledigaeth ar gyfer yr ysgol sydd yn sicrhau awyrgylch hapus, diogel a sefydlog. Mae staff a’r llywodraethwyr yn rhannu’r un weledigaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth yr ysgol wedi cael digon o effaith yn sicrhau deilliannau da ar gyfer y disgyblion mewn cymhariaeth â pherfformiad ysgolion tebyg. Nid yw ffocws yr arweinyddiaeth yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a mesur effaith eu gweithgaredd ar ddeilliannau.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn eu lle ac yn herio staff i gryfhau a gwella eu harfer trwy osod targedau pwrpasol sydd ynghlwm â’r cynllun datblygu. Mae aelodau'r staff cynorthwyol hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses ac mae hyn yn arfer dda. Ar y cyfan, mae’r broses wedi dechrau cael effaith ar safonau a darpariaeth yn rhan uchaf yr ysgol ond nid yw'r un mor llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r arweinyddiaeth yn llwyddo i greu ethos cryf o waith tîm yn yr ysgol. Gwneir defnydd da iawn o arbenigedd gwahanol aelodau o staff trwy gyfnewid dosbarthiadau i ddysgu agweddau penodol. Mae hyn yn cynnwys rhannu profiad ac arbenigedd, ynghyd â chydgynllunio er mwyn codi safonau.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae’n canolbwyntio'n addas ar agweddau allweddol, megis ar weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a hyrwyddo ffordd o fyw iach.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol ac yn derbyn adroddiadau yn rheolaidd ar weithredu’r cynllun gwella ysgol. Mae dealltwriaeth rhai o’r aelodau o safonau ar lawr y dosbarth yn cryfhau trwy ymweliadau monitro. Serch hynny, mae’r llywodraethwyr yn orddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ac nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi gwreiddio yn gadarn.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae prosesau hunanarfarnu boddhaol yn eu lle ers sawl blwyddyn ac yn seiliedig ar raglen ymarferol tros gyfnod o dair blynedd ar y tro. Gwna arweinwyr ddefnydd priodol o ystod o dystiolaeth uniongyrchol sydd yn cynnwys arsylwi gwersi gan y pennaeth a’r dirprwy, craffu ar lyfrau, dadansoddi data a holi barn disgyblion a rhieni. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau monitro hyn yn ddigon arfarnol. Mae’r athrawon yn rhan o drafodaethau sy’n cael eu harwain gan yr uwch dim rheoli ac yn cael cyfleoedd priodol i gael llais yn y penderfyniadau.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu sy’n deillio o’r broses yn or-ddisgrifiadol ac nid yw’n ddigon miniog i fod yn effeithiol. Mae’r adroddiad yn dangos bod gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r holl agweddau sydd

angen gwelliant yn cael eu hadnabod yn ddigon trylwyr. Mae hyn yn cynnwys cysondeb addysgu yn y Cyfnod Sylfaen a chywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu’r ysgol. Defnyddir y wybodaeth o’r adroddiad i osod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella. Mae’r cynllun datblygu yn nodi’n glir y penawdau angenrheidiol, yn canolbwyntio ar godi safonau a phresenoldeb ac yn rhoi cyfeiriad i’r ysgol. Fodd bynnag, gan nad yw’r adroddiad yn nodi’r holl agweddau sydd angen eu gwella, nid yw’r cynllun datblygu yn arf digon cyflawn i symud yr ysgol ymlaen. Nid yw’r camau gweithredu a nodir yn y cynllun datblygu yn ddigon cynhwysfawr i sicrhau’r gwelliannau angenrheidiol yn y ddarpariaeth a safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae’r gymdeithas gyfeillion yn gefnogol i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae’r cyfraniadau ariannol yn cael eu defnyddio i brynu adnoddau megis offerynnau cerddorol.

Mae cydweithio clos rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin lleol sy’n sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n hapus wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo effeithiol hefyd rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, gydag amryw o weithgareddau pontio gwerthfawr sy’n sicrhau trosglwyddo esmwyth. Nid yw’r cydweithio ag ysgolion y cylch wedi llwyddo i sicrhau ansawdd a safoni asesiadau athrawon yn ddigon cywir.

Mae cysylltiadau adeiladol gyda'r gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld yn gyson â gwahanol fannau o fewn y pentref, ac yn aml yn croesawu unigolion o'r gymuned i siarad â nhw yn yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigeddau pobl leol er mwyn ehangu'r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw’r hyfforddiant criced a’r gwersi Ffrangeg mae’r disgyblion yn ei dderbyn yn flynyddol gan aelodau o’r gymuned. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol a thu hwnt.

Mae cysylltiadau gydag asiantaethau amrywiol ar y cyfan yn hybu lles a diwallu anghenion penodol disgyblion yn dda.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac fe wneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyflwyno’r cwricwlwm. Mae’r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Defnyddia’r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae’r ysgol yn cynnig hyfforddiant cymwys i’r holl staff yn unol â blaenoriaethau'r ysgol ac mewn ymateb i anghenion personol sy’n cael eu hadnabod drwy’r broses rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw’r hyfforddiant ar gymedroli a safoni gwaith wedi sicrhau bod asesiadau diweddaraf yr athrawon bob amser yn gywir.

Mae'r rhwydweithiau proffesiynol sydd gan yr ysgol ag ysgolion eraill y cwm wedi arwain at ddatblygu gwybodaeth a medrau’r staff; yn arbennig mewn ymchwiliadau gwyddonol a rhaglenni ymyrraeth.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion ac maent yn cael eu monitro’n briodol.

O ystyried y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692373 - Ysgol Gynradd Pontyberem**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 201 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 27 | 25 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 40.7 | 80.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 44.4 | 80.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 3.7 | 12.0 | 14.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 51.9 | 84.0 | 92.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 12.0 | 14.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 25 | 27 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.3 | 88.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.8 | 44.0 | 74.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692373 - Ysgol Gynradd Pontyberem**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 201 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 29 | 23 | 24 | 19 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 79.3 | 87.0 | 79.2 | 94.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 23 | 24 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 79.3 | 82.6 | 79.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.9 | 39.1 | 33.3 | 47.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 23 | 24 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.8 | 87.0 | 79.2 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.0 | 21.7 | 16.7 | 31.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 23 | 24 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 79.3 | 87.0 | 79.2 | 94.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.0 | 34.8 | 41.7 | 36.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 23 | 24 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.8 | 87.0 | 79.2 | 94.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.9 | 39.1 | 33.3 | 47.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 101 | 101<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 101 | 98<br>97% | 3<br>3% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 101 | 101<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 101 | 101<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 99<br>99% | 1<br>1% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 101 | 92<br>91% | 9<br>9% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 101 | 101<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 100<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 101 | 96<br>95% | 5<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 101 | 100<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 101 | 70<br>69% | 31<br>31% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 101 | 90<br>89% | 11<br>11% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 88 | 47 | 37 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 42% | 2% | 1% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 88 | 60 | 25 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 89 | 59 | 25 | 4 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 66% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 89 | 41 | 39 | 4 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 46% | 44% | 4% | 1% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 89 | 39 | 46 | 0 | 1 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 44% | 52% | 0% | 1% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 88 | 38 | 44 | 4 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 43% | 50% | 5% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 89 | 48 | 35 | 2 | 0 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 39% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 86 | 27 | 37 | 5 | 2 | 15 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 43% | 6% | 2% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 87 | 38 | 40 | 4 | 2 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 46% | 5% | 2% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 88 | 42 | 42 | 1 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 48% | 48% | 1% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 88 | 56 | 30 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 64% | 34% | 0% | 1% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 81 | 33 | 29 | 7 | 1 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 41% | 36% | 9% | 1% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 85 | 31 | 34 | 15 | 3 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 40% | 18% | 4% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 87 | | 39<br>45% | 37<br>43% | 8<br>9% | 2<br>2% | 1 | | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | | 62% | 31% | 4% | 2% | | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 88 | | 32<br>36% | 39<br>44% | 6<br>7% | 2<br>2% | 9 | | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | | 45% | 39% | 7% | 2% | | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 88 | | 40<br>45% | 43<br>49% | 1<br>1% | 1<br>1% | 3 | | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | | 56% | 38% | 2% | 0% | | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 79 | | 29<br>37% | 26<br>33% | 3<br>4% | 1<br>1% | 20 | | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | | 42% | 33% | 4% | 1% | | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 88 | | 31<br>35% | 41<br>47% | 7<br>8% | 4<br>5% | 5 | | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | | 53% | 38% | 5% | 1% | | | |
| The school is well run. | 86 | | 43<br>50% | 38<br>44% | 3<br>3% | 1<br>1% | 1 | | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | | 61% | 32% | 3% | 2% | | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Thomas | Arolygydd Tim |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Nia Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Owen | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.